
# 2025/26
# Y Gyllideb, eich Treth Cyngor a gwasanaethau lleol

Cyn dechrau bob blwyddyn ariannol newydd, rhaid i bob Cyngor ar draws y DU - yn ôl y gyfraith - osod cyllideb sy'n cydbwyso'r arian a gânt gyda'r arian sydd angen ei wario.

Pan fo'r arian mae Sir y Fflint yn ei gael gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn cael ei gyfrifo **fesul pen y boblogaeth** rydym yn 19 allan o 22 Cyngor yng Nghymru. Pe byddem yn cael cyfartaledd Cymru arfaethedig, byddem ar ein hennill yn ariannol o tua **£169 y pen.** Mae hynny'n gyfanswm o tua **£26.3 miliwn** cael.

## O le daw arian y Cyngor?




- O Lywodraeth Cymru
- O Dreth y Cyngor
- O'r ffioedd ar gyfer rhai gwasanaethau e.e. ffioedd cynllunio, ffioedd gwastraff gardd, ffioedd y Swyddfa Gofrestru

## Y cyd-destun cenedlaethol

Mae LIC wedi derbyn **£1.7 biliwn** o arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU:

| | |
|---|---|
| 2024/25 | **£774m** cyllid refeniw |
| 2025/26 | **£694** miliwn refeniw*<br>**£235** miliwn cyfalaf* |

**Pwyntiau pwysig i'w nodi:**
Er y croesawir hyn, bydd yn cael ei rannu rhwng holl wasanaethau cyhoeddus Cymru (nid dim ond ynghorau).
Nid yw'r cyllid ychwanegol hwn wedi ei gynnwys yng nghyllideb sylfaen LIC o 2026/27 ymlaen.

* refeniw - talu am gynnal gwasanaethau'r Cyngor o ddydd i ddydd megis ysgolion, cartrefi gofal.
* cyfalaf - talu am y buddsoddiad mewn asedau a phrosiectau newydd, megis adeiladu cartrefi gofal newydd.
* cyhoeddwyd yn setliad dros dro LIC (Rhagfyr 2024).

## Amcanestyniad o'r bwlch yn ein cyllideb

| | |
|---|---|
| £37.778m | **Gorffennaf 2024** |
| ↑ £38.420m | **Medi 2024** |
| ↑ £47.493m | **Rhagfyr 2024** |
| £17.642m | atebion wedi eu canfod hyd at Ragfyr 2024 |
| ↓ £29.851m | **Rhagfyr 2024** |
| ↓ £18m | y bwlch terfynol a ragwelir ym mis **Ionawr 2025** ar ôl cyllid ychwanegol gan LIC ac addasiadau eraill |

## O le y daw'r bwlch?

- Cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau fel digartrefedd a gofal cymdeithasol
- y cynnydd yng nghostau ynni, bwyd, tanwydd a gwasanaethau eraill
- cyfrifoldebau newydd heb eu hariannu gan Lywodraeth Cymru
- cynnydd yn y costau gan bartneriaid allanol (Awdurdod Tân Gogledd Cymru, Gwasanaeth Crwner Gogledd Ddwyrain Cymru, etc.)

**O bell ffordd dyma'r bwlch cyllido mwyaf mae Cyngor Sir y Fflint erioed wedi ei wynebu.**

## Sut y defnyddir arian Treth y Cyngor

Er bod y Dreth y Cyngor yr ydych chi'n ei thalu yn cynyddu bob blwyddyn, nid yw'r holl arian a gesglir yn mynd i dalu am wasanaethau'r Cyngor. Ar eich bil byddwch hefyd yn gweld ffi am eich Cyngor Tref a Chymuned a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae cynghorau Gogledd Cymru hefyd yn cyfrannu at gostau cynnal gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'r costau hyn yn cynyddu bob blwyddyn. Er na ddangosir hynny ar eich bil mae'r Dreth y Cyngor yr ydych yn ei thalu hefyd yn helpu i dalu am y cynnydd hwn.

Cyfraniadau Sir y Fflint yw:

| | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | £10.905m | £11.519m |
| Gwasanaeth Crwner Gogledd Ddwyrain Cymru | £0.423m | £0.444m* |

*Rhagolwg - ni ellir cyfrif y gost derfynol tan ddiwedd y flwyddyn ariannol

**I helpu i dalu am y costau cynyddol hyn mae Sir y Fflint wedi gosod cynnydd cyffredinol yn Nhreth y Cyngor o 9.5% i'w gyfran o'ch bil yn 2025/26.**

Cynnydd o **8.93%** i dalu am wasanaethau'r Cyngor + **0.57%** ar gyfer cynnydd yn ein cyfraniadau i Awdurdod Tân Gogledd Cymru a Gwasanaeth Crwner Gogledd Ddwyrain Cymru.

## Cymharu cost y cynnydd

Gan ddefnyddio eiddo Band D cyffredin fel enghraifft:

| | 2025/26 | 2024/25 | Cynnydd cost | Cynnydd caran |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir y Fflint | £1,815.78 | £1,658.25 | £157.53 | 9.5% |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £372.15 | £349.65 | £22.50 | 6.4% |
| Cynghorau Tref a Chymuned* | £58.54* | £54.56* | £3.98* | 7.3%* |
| CYFANSWM COSTAU | £2,246.47 | £2062.46 | £184.01 | 8.92% |

* Cyfartaledd y gost ar draws 34 o Gynghorau Tref a Chymuned. Bydd y gost ar filiau unigol yn amrywio o Gyngor i Gyngor.

## Cau'r bwlch £18 miliwn

O ganlyniad i bron i ddau ddegawd o danariannu gan lywodraethau cenedlaethol, mae Cyngor Sir y Fflint wedi gostwng ei wariant **£125 miliwn.**

Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi defnyddio'r holl ffyrdd hawdd, cymedrol ac anodd o ostwng costau.

Er y croesawir y cyllid ychwanegol gan LIC, roedd cau bwlch o **£18 miliwn** yn her fawr iawn ac nid oedd gennym unrhyw ddewis heblaw gwneud dewisiadau anodd iawn ynghylch ble dylem gwtogi ein gwariant.

Fel Cyngor rydym wedi:
- Gofyn i bob gwasanaeth ganfod gostyngiadau pellach yn y gyllideb
- Cynyddu ffioedd a thaliadau ar gyfer rhai gwasanaethau
- Cynyddu Treth y Cyngor 8.93% i dalu am wasanaethau'r Cyngor gyda 0.57% pellach i helpu i dalu am gynnydd yn ein cyfraniadau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Crwner Gogledd Ddwyrain Cymru.

Mae mwy o wybodaeth am y gyllideb ar gael ar ein gwefan: www.siryfflint.gov.uk/Cyllideb-25/26

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council